# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Yn y ddogfen hon mae'r ymadrodd 'ni' yn cyfeirio at ClwydAlyn Housing Limited, Tir Tai Limited, PenArian Limited a Tai Elwy Limited, sy'n darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig ledled Gogledd Cymru.

Mae pob endid yn rheoli ei ddata personol ei hun ond mae'n bosibl y gall data gael eu prosesu gan aelodau eraill y Grŵp ar ei ran.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth amdanoch chi.

Darllenwch sut rydym yn defnyddio cwcis yma **https://www.clwydalyn.co.uk/cookie-notice/**

Mae ClwydAlyn wedi llofnodi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), gallwch ymweld â'r wefan yma **www.waspi.gov.wales** .

Darllenwch yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn ofalus i ddeall sut byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd hwn, gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data drwy'r dulliau isod:

| | | |
|---|---|---|
| | E-bost/ar-lein | **datacontroller@clwydalyn.co.uk** |
| | Cyfeiriad post | 72 Ffordd William Morgan<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych LL17 0JD |
| | Gwasanaeth Cwsmeriaid | Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00 tan 17:00<br>Rhadffôn o linell dir **0800 183 5757** neu **01745 536800** |

**Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio:**

1 Pa wybodaeth gallem ei chasglu amdanoch ....... 2
2 Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth os ydych yn Ddeiliad Contract (Tenant)....6
3 Cysylltu â chi....... 7
4 Porth FyClwydAlyn ....... 8
5 Rhannu eich gwybodaeth....... 8
6 Ein sail gyfreithiol dros gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth ....... 9
7 Diogelwch a storio eich gwybodaeth bersonol....... 9
8 Eich hawliau ....... 10
9 Clychau drws clyfar a Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) a osodir gan Denantiaid ....... 10
10 Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 (DUAA) ....... 11
11 Cwynion ynglŷn â Data Personol ....... 11
12 Cwynion Cyffredinol....... 11
13 Gofynion Mynediad Tenantiaid Cymdeithasol i Wybodaeth (STAIRs)....... 12

# 1 Pa wybodaeth gallem ei chasglu amdanoch

Mae'r cysylltau canlynol yn ymdrin â sut rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch yn y ffyrdd canlynol:

- **Os byddwch yn ffonio ein Canolfan Gyswllt**
- **Os byddwch yn anfon e-bost atom**
- **Os byddwch yn cwyno am rywbeth**
- **Os byddwch yn defnyddio ein gwasanaethau**
- **Pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan**
- **Pan fyddwn yn derbyn gwybodaeth gan bobl eraill**
- **Os byddwch yn ymweld â'n heiddo**
- **Os byddwch yn gwneud cais am swydd**
- **Os ydych chi'n weithiwr cyflogedig**
- **Y Bwrdd, Pwyllgorau a Phaneli**
- **Ethnigrwydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Bydd y wybodaeth y byddwn yn ei chasglu amdanoch yn dibynnu ar y rheswm rydych yn ymwneud â ni. Er enghraifft, os ydych chi'n gwneud cais am dŷ neu'n Ddeiliad Contract (Tenant), byddwn angen mwy o wybodaeth amdanoch na phetaech chi'n gwneud ymholiad syml.

## 1.1 Os byddwch yn ffonio ein Canolfan Gyswllt

Pan fyddwch yn ffonio ein canolfan gyswllt, rydym yn casglu gwybodaeth Adnabod Llinell y Galwr (*CLI: Calling Line Identification*). Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i wella ein heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Rydym yn recordio galwadau at ddibenion hyfforddiant a monitro. Yn ogystal â hyn, mae ein staff galwadau yn cofnodi eich galwad i reoli eich ymholiad. Mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill i ymateb yn briodol i'ch galwad, er enghraifft er mwyn i ni drefnu gwaith cynnal neu drwsio neu gymorth arall. Byddwn fel arfer yn dweud wrthych os oes angen i ni drosglwyddo gwybodaeth i sefydliadau eraill.

Os byddwch yn ffonio y tu allan i'n horiau busnes arferol mae'n bosibl y bydd eich galwad yn cael ei ateb gan wasanaeth canolfan gyswllt trydydd parti neu gan wasanaeth trydydd parti sy'n cyflenwi mewn argyfwng.

## 1.2 Os byddwch yn anfon e-bost atom

Gall unrhyw negeseuon e-bost a anfonir atom, gan gynnwys unrhyw atodiadau, gael eu monitro a'u defnyddio gennym at ddibenion diogelwch ac er mwyn monitro cydymffurfiaeth â pholisi. Mae'n bosibl y defnyddir meddalwedd i fonitro neu atal

negeseuon e-bost. Sylwer, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod unrhyw negeseuon e-bost rydych yn eu hanfon atom o fewn terfynau'r gyfraith.

## 1.3 Os byddwch yn cwyno am rywbeth

Pan fyddwn yn derbyn cwyn, rydym yn creu cofnod sy'n cynnwys manylion yr achwynydd. Mae hyn fel arfer yn cynnwys manylion personol yr achwynydd ac unrhyw unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r gŵyn.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gaiff ei chasglu gennym er mwyn prosesu'r gŵyn a gwirio lefel y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu yn unig. Os nad yw achwynydd yn dymuno i'w fanylion personol gael eu datgelu i'r bobl y mae'r gŵyn yn ymwneud â nhw, byddwn yn ceisio parchu ei ddymuniad. Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosibl i ni ymdrin â chŵyn ddi-enw.

## 1.4 Os byddwch yn defnyddio ein gwasanaethau

Rydym yn cadw manylion y bobl sy'n gofyn am ein gwasanaethau ac yn eu defnyddio er mwyn i ni allu darparu'r gwasanaethau hynny ac at ddibenion cysylltiedig. Er enghraifft, rydym yn defnyddio gwybodaeth am ein defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau ac i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau i grwpiau gwahanol mewn ffordd deg.

Os byddwch yn gwneud cais am dŷ neu'n dod yn Ddeiliad Contract (Tenant), mae'n ofynnol i ni gasglu gwybodaeth benodol i brosesu eich cais a rheoli eich tenantiaeth. Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth hon i ni, ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais.

Bydd rhai preswylwyr yn symud i eiddo sy'n cynnwys offer monitro ynni sy'n casglu data ar gyfer Llywodraeth Cymru i'w helpu i ddod yn garbon niwtral. Mewn rhai amgylchiadau, oherwydd y ffordd mae'r gyfraith diogelu data yn gweithio, gallai rhywfaint o'r wybodaeth am eich cartref a'ch defnydd o ynni gynnwys data personol. Mae gennych hawl i optio allan o'r gwasanaeth hwn.

Gallwch ddarllen datganiad Llywodraeth Cymru drwy glicio ar y cyswllt isod:

**https://busnescymru.llyw.cymru/mynegai-hysbysiadau-preifatrwydd-digidol/busnes-cymru-datganiad-preifatrwydd**

## 1.5 Pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan

Rydym yn casglu gwybodaeth benodol yn awtomatig pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan. Edrychwch ar ein Polisi Cwcis uchod i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

Pan fyddwch yn defnyddio ein porth cwsmeriaid gallwch weld gwybodaeth a gaiff ei chadw ar ein system rheoli tai, gan gynnwys manylion personol, datganiadau cyfrifon, gwybodaeth am denantiaethau, hanes gwaith trwsio a'ch rhent a thaliadau

gwasanaeth. Sylwer, rydym yn defnyddio darparwr trydydd parti i ddarparu ein porth cwsmeriaid.

## 1.6 Gwybodaeth rydym yn ei derbyn gan bobl eraill

Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill, fel adrannau llywodraeth, cynghorau lleol, heddluoedd, mudiadau'r sector gwirfoddol, darparwyr tai eraill a'n contractwyr, ac mae'n bosibl y byddwn yn derbyn gwybodaeth amdanoch ganddynt.

## 1.7 Os byddwch yn ymweld â'n heiddo

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi fewngofnodi ac allgofnodi os byddwch yn ymweld â staff neu breswylwyr yn ein heiddo. Mae mynediad yn cael ei reoli at ddibenion diogelwch yr adeilad a'r preswylwyr ac mae hyn yn cael ei gofnodi i gynorthwyo gweithdrefnau tân a gweithdrefnau eraill i wagio adeiladau. At hyn, mae'n bosibl y bydd eich llun yn cael ei dynnu ar TCC i fonitro a chasglu delweddau gweledol at ddibenion diogelwch ac atal a chanfod troseddu. Mewn amgylchiadau penodol rydym yn cadw'r hawl i fonitro digwyddiadau ar TCC.

Os byddwch yn defnyddio eich Wi-Fi neu gyfrifiaduron i gael mynediad i'n systemau TG, gall mynediad neu weithgarwch gael ei fonitro i atal ein heiddo rhag cael eu cam-drin, yn unol â'n polisïau.

## 1.8 Ymgeiswyr swyddi

Pan fyddwch yn gwneud cais i weithio gyda ni, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni er mwyn prosesu eich cais a monitro ystadegau recriwtio yn unig.

Bydd gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw am 12 mis ar ôl i'r broses recriwtio ddod i ben; yna bydd yn cael ei dinistrio neu'i dileu. Rydym yn cadw gwybodaeth ystadegol amhersonol am ymgeiswyr i'n helpu i siapio ein gweithgareddau recriwtio, ond nid oes modd adnabod unigolion o'r data hynny.

## 1.9 Os ydych chi'n Weithiwr cyflogedig

Mae gennym system Rheoli Pobl i gadw gwybodaeth am ein gweithwyr cyflogedig. Mae'r wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel a bydd yn cael ei defnyddio at ddibenion sy'n uniongyrchol berthnasol i gyflogaeth pob unigolyn yn unig. Pan fyddwch yn gadael eich swydd gyda ni, byddwn yn cadw'r ffeil yn unol â gofynion ein hamserlen gadw ac yna'n ei dileu.

Mae'r wybodaeth bersonol amdanoch y mae disgwyl i ni ei chasglu, ei chadw a'i defnyddio ('prosesu') yn debygol o gynnwys y canlynol. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ond y bwriad yw rhoi syniad clir i chi am y wybodaeth bersonol amdanoch rydym yn ei phrosesu:

- Enwau cyswllt, cyfeiriad, dyddiad geni, rhifau ffôn personol a chyfeiriadau e-bost personol ar eich cyfer chi a'ch unigolion cyswllt mewn argyfwng.
- Gwybodaeth a gasglwyd yn ystod eich proses recriwtio (gan gynnwys geirda, gwiriadau hawl i weithio ac euogfarnau heb eu disbyddu ac wedi'u disbyddu a gwiriadau cofnodion troseddol lle bo'n gymwys).
- Manylion eich telerau cyflogaeth neu benodiad (gan gynnwys pensiwn a buddion eraill).
- Gwybodaeth y gyflogres, treth ac yswiriant gwladol, manylion eich cyfrif banc a gwybodaeth am hawliadau treuliau.
- Manylion teitl/rôl eich swydd a dyletswyddau cysylltiedig, rheolaeth, a threfniadaeth gwaith.
- Gwybodaeth am eich perfformiad gan gynnwys gwerthusiadau, codiadau cyflog, dyrchafiadau a chwynion (gennych chi neu amdanoch chi).
- Cofnodion amser, presenoldeb, absenoldeb gan gynnwys cofnodion gwyliau, ffurflenni hunan-ardystio, tystysgrifau meddygol a chofnodion iechyd
- Manylion absenoldeb am resymau teulu neu bersonol (e.e. mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir neu fabwysiadu).
- Manylion unrhyw ymchwiliadau disgyblaeth, ymchwiliadau cwynion cyflogaeth neu gŵynion, ni waeth a chafodd camau disgyblaeth eu cymryd ai peidio.
- Cofnodion eich addysg, hyfforddiant, cymwysterau a chyflawniadau.
- Digwyddiadau iechyd a diogelwch.
- Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (gan gynnwys, er enghraifft, oedran, hil/ethnigrwydd, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd a statws priodasol).
- Gwybodaeth am eich aelodaeth, neu gynrychiolaeth, o undeb llafur.
- Mynediad posibl sydd gennych i'n heiddo neu eiddo cwsmer.
- Eich ffotograff ar gyfer gweithdrefnau ID cwmni.
- Eich cynnwys mewn ffotograffau, recordiadau neu ffilmio cyfarfodydd, digwyddiadau neu weithgareddau eraill (ar y sail eich bod yn cydsynio i hyn).
- Data digidol sy'n cynnwys mynediad i adeiladau (fel cardiau llithro neu luniau TCC) a'ch defnydd o'n systemau ffôn a TG gan gynnwys gliniaduron,

cyfrifiaduron, tabledi, ffonau clyfar, a dyfeisiau eraill a ddarparwyd gennym (mewn rhai amgylchiadau gall hyn gynnwys monitro'r systemau hyn).

- Cyfathrebu gyda'ch rheolwr/rheolwyr, pobl eraill sy'n gweithio gyda chi a'r Adran Pobl: er enghraifft, os byddwch yn gwneud cais i weithio'n hyblyg.

### 1.10 Y Bwrdd, Pwyllgorau neu Baneli

Os ydych yn aelod o'n Bwrdd, Pwyllgorau neu Baneli, rydym yn gofyn am fanylion personol gennych at ddibenion rheoli a chasglu ystadegau, gan gynnwys datgan buddiant.

### 1.11 Ethnigrwydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn ymroddedig i fod yn sefydliad cwbl gynhwysol, lle mae gwahaniaethau yn cael eu dathlu ac mae ein staff a'n defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Gall casglu data Ethnigrwydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant ein helpu i barhau ar y daith hon i fod yn gynhwysol.

Rydym yn defnyddio data Ethnigrwydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gydymffurfio â gofynion cyflwyno data Llywodraeth Cymru /Llywodraeth y DU ac rydym yn cynnal adolygiadau bylchau cyflog o ran rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd yn unol â deddfwriaeth. Rydym yn casglu gwybodaeth am ddewis iaith yn unol â deddfwriaeth (yn benodol Safonau'r Gymraeg), gan gynnwys defnyddio'r wybodaeth hon i adnabod ein haelodau staff sy'n siarad Cymraeg. Pan fydd yn gofyn amdanynt, bydd data ac adroddiadau Ethnigrwydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant di-enw yn cael eu rhannu gyda'r Llywodraeth fel y gall eu defnyddio.

Fel sefydliad, rydym yn monitro ac yn dadansoddi data Ethnigrwydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gyfrinachol i sicrhau bod ein holl brosesau yn deg, yn dryloyw ac yn hybu cyfle cyfartal i bob aelod staff a'n defnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn defnyddio'r data hyn i helpu i sicrhau y gall pawb gael mynediad at y cymorth mae eu hangen arnynt a bod y gwasanaethau rydym yn eu cynnig yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Mae unrhyw ymatebion coll neu heb eu hateb ar ffurflenni Ethnigrwydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel 'mae'n well gennyf beidio ag ateb' a gweddill y ffurflen yn cael eu cofnodi yn ôl yr arfer.

## 2 Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth os ydych yn Ddeiliad Contract (Tenant)

Rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn bennaf er mwyn rheoli ein gwasanaethau tai. Os ydych yn Ddeiliad Contract (Tenant), mae hyn yn cynnwys rheoli eich tenantiaeth ac ymdrin ag unrhyw geisiadau, ymholiadau neu gŵynion

rydych yn eu gwneud. Os ydych yn weithiwr cyflogedig mae hyn yn cynnwys rheoli eich cyflogaeth.

Dyma rai enghreifftiau o sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth:

- cadarnhau eich hunaniaeth
- asesu os ydych yn addas i gael mynediad i'n gwasanaethau
- rheoli eich tenantiaeth, gofal neu gymorth
- sicrhau bod ein heiddo yn cael eu cynnal yn briodol ac yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol, fel gwiriadau diogelwch nwy rheolaidd
- rhoi gwybod i chi am newidiadau pwysig i'n gwasanaethau
- rhoi gwybod i chi am wasanaethau perthnasol, ein gwasanaethau ni a rhai partïon eraill rydym wedi cytuno y dylai eu cynnyrch fod ar gael i chi (gweler yr adran isod 'Cysylltu â chi' i gael rhagor o wybodaeth)
- diweddaru a chywiro ein cofnodion
- cynnal dadansoddiad ystadegol a marchnad gan gynnwys ymarferiadau meincnodi, fel y gallwn eich deall yn well a gwella ein gwasanaethau, ac er mwyn cydymffurfio â'n rheoliadau gweithredu
- datblygu, profi a gwella ein systemau
- sicrhau bod cynnwys ein gwefan yn cael ei gyflwyno yn y ffordd fwyaf effeithiol i chi a'ch cyfrifiadur
- gweinyddu ein gwefan ac ar gyfer gweithredoedd mewnol gan gynnwys at ddibenion datrys problemau, dadansoddi data, profi, ymchwil, ystadegol ac arolygu
- cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill fel deddfau Iechyd a Diogelwch neu ddiogelu pobl

Mae'n bosibl y byddwn yn cyfuno gwybodaeth rydym yn ei derbyn o ffynonellau eraill â gwybodaeth rydych yn ei rhoi i ni at y dibenion a nodir uchod.

## 3 Cysylltu â chi

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth gyswllt i anfon gwybodaeth bwysig atoch naill ai mewn llythyron, negeseuon e-bost, negeseuon testun, neu dros y ffôn, yn dibynnu ar y dewis a fynegwyd gennych. Mae'n ofynnol i ni ddarparu gwybodaeth benodol i chi drwy lythyr. Gallwn gofnodi galwadau ffôn at ddibenion diogelwch a hyfforddiant.

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch i roi gwybodaeth i chi am ein gwasanaethau a allai fod o ddiddordeb i chi.

Gallwch ddewis peidio â derbyn gwybodaeth farchnata gennym ar unrhyw adeg, ond dylid nodi y byddwn yn dal i anfon negeseuon pwysig atoch am eich tenantiaeth neu gyflogaeth.

Os byddwch yn newid eich meddwl ynglŷn â derbyn gwybodaeth farchnata gennym, cysylltwch â'n Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar **0800 1835757** (rhadffôn o linell dir) neu **01745 536800** i ddiweddaru eich dewisiadau. Neu gallwch anfon neges e-bost atom: help@clwydalyn.co.uk.

## 4 Porth FyClwydAlyn

Mae FyClwydAlyn yn borth hunanwasanaeth i Ddeiliaid Contract (tenantiaid) lle gellir diweddaru dewisiadau a manylion personol. Gallwch gofrestru yma **https://www.myclwydalyn.co.uk/**

## 5 Rhannu eich gwybodaeth

Nid ydym yn gwerthu eich gwybodaeth i unrhyw drydydd parti, ond mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol mae'n bosibl y byddwn yn datgelu eich gwybodaeth bersonol i'r canlynol:

- unrhyw ran o ClwydAlyn, sy'n golygu ein his-gwmnïau, ein prif gwmni daliannol a'i is-gwmnïau, fel y'u diffinnir yn adran 736 o Ddeddf Cwmnïau'r Deyrnas Unedig 1985; a/neu unrhyw drydydd partïon eraill yn yr amgylchiadau canlynol
- os oes gennym ddyletswydd i ddatgelu neu rannu eich data personal er mwyn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol
- gorfodi neu roi ein telerau ac amodau ac unrhyw gytundebau eraill ar waith
- amddiffyn hawliau, eiddo, neu ddiogelwch ClwydAlyn, ein cwsmeriaid, gweithwyr cyflogedig neu bobl eraill
- ymchwilio / atal troseddu. Mae hyn yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth gyda chwmnïau a sefydliadau at ddibenion diogelwch twyll a lleihau risg credyd
- ein galluogi i gyflawni ein buddion cyfreithiol fel darparwr tai a gwasanaethau cysylltiedig (er enghraifft, cynnal arolygon bodlonrwydd neu gyflawni ein rôl fel cyflogwr)
- cael unrhyw gyngor proffesiynol; a/neu
- gyda'ch cydsyniad.

## 6 Ein sail gyfreithiol dros gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth

Mae deddfau diogelu data yn amlinellu gwahanol seiliau cyfreithiol (neu 'amodau') sy'n ein galluogi i gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol:

Os oes gennych gontract gyda ni, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth i ddarparu ein gwasanaethau i chi. Enghraifft o hyn yw os oes gennych denantiaeth gyda ni.

Os oes gennym rwymedigaeth gyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i brosesu eich gwybodaeth bersonol. Er enghraifft, hysbysiadau o ddigwyddiadau Iechyd a Diogelwch.

Byddwn weithiau yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar sail eich cydsyniad. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i chi yn yr achos hwn a byddwn yn gofyn i chi gytuno cyn i ni brosesu eich gwybodaeth. Enghraifft o ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol gyda'ch cydsyniad yw cyhoeddi llun ohonoch fel rhan o ffotograff ar ein gwefan.

Yn olaf, weithiau mae'n angenrheidiol prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion ein buddion cyfreithiol. Byddwn yn gwneud hyn dim ond na fydd buddion a hawliau sylfaenol neu ryddid yr unigolion dan sylw yn cael blaenoriaeth dros ein buddion cyfreithiol. Enghraifft o hyn yw os byddem yn cysylltu â chi i ofyn beth yw eich profiad o ymwneud â'n Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid neu waith trwsio diweddar yn eich eiddo. Mae'n ofynnol i ni weithio o fewn terfynau'r Ddeddf Rhentu Cartrefi a gallwch gael rhagor o wybodaeth yma:
**https://www.llyw.cymru/mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi**

Mae deddfau diogelu data yn cydnabod "categorïau arbennig" o wybodaeth bersonol, sef gwybodaeth sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undebau llafur, gwybodaeth genetig, gwybodaeth biometrig i adnabod unigolyn, gwybodaeth am iechyd, a gwybodaeth yn ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiradedd rhywiol unigolyn. Mae gwybodaeth am droseddau a chofnodion yn cael ei rhoi mewn categori tebyg.

Mae'r categorïau gwybodaeth bersonol arbennig hyn yn cael eu hystyried yn hynod o sensitif a byddwn yn casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth hon dim ond pan rydych wedi rhoi eich cydsyniad pendant neu os ydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i ni wneud hynny.

## 7 Diogelwch a storio eich gwybodaeth bersonol

Gall y wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch gael ei throsglwyddo a'i storio mewn lleoliad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA). Gall hefyd gael ei phrosesu gan staff sy'n gweithredu y tu allan i'r EEA ac sy'n gweithio gydag un o'n cyflenwyr.

Rydym yn cymryd pob cam rhesymol angenrheidiol i sicrhau bod eich data yn cael eu trin yn ddiogel ac yn unol â'r polisi preifatrwydd hwn.

Ni fyddwn yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch am gyfnod hwy na'r angen ac yn unol â'n Hamserlen Gadw.

## 8 Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn i ni am fynediad at eich gwybodaeth bersonol. Gelwir hyn yn 'gais mynediad at ddata gan destun y data hynny'.

Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni beidio â phrosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os ydym yn bwriadu defnyddio eich data at y diben hwn neu os ydym yn bwriadu datgelu eich gwybodaeth i unrhyw drydydd parti at y diben hwn. Gallwch arfer eich hawl i atal prosesu o'r fath drwy roi tic mewn blychau penodol ar y ffurflenni rydym yn eu defnyddio i gasglu eich data neu drwy gysylltu â'n Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid ar **0800 1835757** (rhadffôn o linell dir) neu **01745 536800**.

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig (UK GDPR) mae gennych hawliau ychwanegol i ofyn i ni wneud y canlynol:

- Cywiro unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch
- Dileu eich gwybodaeth
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol
- Darparu eich gwybodaeth i chi mewn fformat cludadwy
- Sicrhau nad yw penderfyniadau amdanoch yn cael eu gwneud drwy ddulliau cwbl awtomatig
- Mae llawer o'r hawliau a restrir uchod yn gyfyngedig i amgylchiadau diffiniedig penodol ac mae'n bosibl na fyddwn yn gallu cydymffurfio â'ch cais. Byddwn yn dweud wrthych os mai dyma'r achos.
- Os byddwch yn dewis cyflwyno cais i ni, byddwn yn ceisio ymateb i chi cyn pen mis. Ni fyddwn yn codi ffi am ymdrin â'ch cais.

## 9 Clychau Drws Clyfar a TCC (CCTV) a osodir gan Denantiaid

Mae'r defnydd o Deledu Cylch Cyfyng (TCC) mewn annedd preifat yng Nghymru yn cael ei reoleiddio gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 sy'n ceisio cydbwyso hawl pobl i amddiffyn eu heiddo â hawl pobl eraill i breifatrwydd. Mae tynnu lluniau y tu allan i'ch eiddo yn ddarostyngedig i Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r Deyrnas Unedig (GDPR).

Mae gosod offer TCC wedi bod yn destun sawl anghydfod rhwng cymdogion a chwynion i'r heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gan bobl sy'n credu bod y camerâu yn cael eu defnyddio i ysbïo arnynt a'u teuluoedd.

Cofiwch mai chi sy'n gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd i'r wybodaeth sy'n cael ei gipio gan eich camerâu, am gadw'r holl recordiadau yn ddiogel, a chyfyngu ar fynediad i'r lluniau i'r graddau bod hynny'n bosibl. Os ydych yn casglu lluniau a allai gael eu defnyddio i adnabod troseddwyr, dylech eu rhannu gyda'r heddlu neu gorff gorfodi'r gyfraith arall yn unig. Rydym yn eich cynghori'n gryf i beidio â rhannu delweddau neu recordiadau gyda ClwydAlyn na'u cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol heb ganiatâd yr heddlu gan y gallai hyn beryglu ymchwiliad yr heddlu.

## 10 Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 (DUAA)

Mae'r Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) yn diwygio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r Deyrnas Unedig (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Lle bo'n berthnasol, rydym yn rhoi'r newidiadau hyn ar waith wrth brosesu data personol, er enghraifft wrth wirio hunaniaeth neu rannu data gyda phartneriaid rydym yn ymddiried ynddynt. Nid yw hyn yn lleihau eich hawliau diogelu data, sy'n dal i gael eu diogelu o dan ddeddfau diogelu data'r Deyrnas Unedig.

## 11 Cwynion ynglŷn â Data Personol

Yn unol â'r Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad), gallwch gyfeirio cwynion neu bryderon ynglŷn â'r ffordd rydym yn casglu neu'n defnyddio eich data **personol** at ein Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r dulliau a nodir isod a byddwn yn ceisio datrys unrhyw broblemau sydd gennych.

| | | |
|---|---|---|
| | E-bost/ar-lein | **datacontroller@clwydalyn.co.uk** |
| | Cyfeiriad post | 72 Ffordd William Morgan<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych LL17 0JD |
| | Gwasanaethau Cwsmeriaid | Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00 tan 17:00<br>Rhadffôn o linell dir **0800 183 5757** neu **01745 536800** |

Mae gennych hawl hefyd i gwyno i reoleiddwr statudol y Deyrnas Unedig ar faterion deddfau diogelu data, sef y Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn https://ico.org.uk/concerns/ neu ffoniwch **0303 123 1113.**

## 12 Cwynion Cyffredinol

Dylai geiriau o ganmoliaeth, pryderon a chwynion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'ch data personol ddal i gael eu cyfeirio at ein Tîm Cwynion yn **https://www.clwydalyn.co.uk/cy/compliments-complaints/**. Mae Polisi Cwynion ClwydAlyn ar gael ar ein gwefan o dan y pennawd cyhoeddiadau allanol **Complaints Policy GOV-POL-19.pdf**

## 13 Gofynion Mynediad Tenantiaid Cymdeithasol i wybodaeth (STAIRs)

STAIRs yw safon tryloywder llywodraeth y DU sy’n galluogi tenantiaid tai cymdeithasol yn Lloegr i gael mynediad i wybodaeth reoli gan eu landlord. Fel sefydliad sy’n gweithredu yng Nghymru, nid yw ClwydAlyn yn ddarostyngedig i STAIRs ond rydym yn deall mai’r nod yw rhoi hawliau cadarnhaol ychwanegol i denantiaid landlordiaid cymdeithasol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth sy’n cyfateb i’r hawliau a ganiateir i denantiaid gan STAIRs ar ein gwefan a thrwy fewngofnodi i’n Porth Tenantiaid.

Darllenwch sut rydym yn defnyddio cwcis https://www.clwydalyn.co.uk/cookie-policy/